



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Tŷ Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd /Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

E-bost/Email:
Emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Emyr.roberts@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
03000 065 4444

Yr Adran Ymbelydredd ac Atal Llygredd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

22 Ionawr 2015

Annwyl Syr/Madam,

YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: ADOLYGIAD O BOLISI LLYWODRAETH CYMRU AR REOLI A GWAREDU GWASTRAFF YMBELYDROL UWCH EI ACTIFEDD

Diolch i chi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr ymgynghoriad ar gyfer yr adolygiad o'r polisi presennol ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r broses adolygu ac rydym yn rhoi ein hymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad dros y dudalen. Mae hyn yn dilyn ein hymateb blaenorol i gais Llywodraeth Cymru am dystiolaeth ar adolygiad o'r polisi hwn, a ddarparwyd gennym ym mis Mehefin 2014. Mae ein hymateb i'r cais hwnnw am dystiolaeth wedi'i gynnwys fel atodiad.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ystod yr adolygiad a'r broses o roi unrhyw bolisi ar reoli a gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd ar waith wedi hynny.

Cysylltwch â Ceri Davies os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ein hymateb yn fwy manwl.

Yn gywir,

Emyr Roberts
Prif Weithredwr
Chief Executive

Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

CWESTIWN 1. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisi presennol ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae gan Lywodraeth Cymru dri opsiwn:

- a ddylai geisio mabwysiadu polisi o opsiwn gwaredu ar gyfer gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd pe datgenid eu bod yn wastraff?
- a ddylai gadw at ei safbwynt niwtral presennol o beidio â chefnogi nac ychwaith wrthwynebu opsiwn gwaredu?
- a ddylai fabwysiadu polisi sy'n gwrthwynebu opsiwn gwaredu ar gyfer gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd o bosibl?

Ymhlith cyfrifoldebau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru mae rheoleiddio'r gwaith o waredu gwastraff ymbelydrol o safleoedd niwclear, yn ogystal â safleoedd eraill nad ydynt yn rhai niwclear yng Nghymru. CNC sy'n gyfrifol am roi a rheoleiddio trwyddedau amgylcheddol ac unrhyw weithgarwch gorfodi cysylltiedig sy'n ymwneud â safleoedd sy'n cynhyrchu neu'n gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru.

Dros sawl degawd, mae gweithgareddau diwydiannol penodol yng Nghymru wedi cynhyrchu Gwastraff Uwch ei Actifedd (HAW) etifeddol (gan gynnwys gwastraff lefel uchel (HLW), gwastraff lefel ganolraddol (ILW) a chyfran o wastraff lefel isel (LLW)) nad yw opsiynau gwaredu sy'n bodoli eisoes yn addas ar eu cyfer. Yng Nghymru, mae cyfran o'r gwastraff hwn wedi deillio o gynhyrchu trydan o'r gorsafoedd ynni niwclear yn Nhrawsfynydd ac Wylfa, a hefyd o gyfleusterau eraill yng Nghymru lle mae deunyddiau ymbelydrol wedi cael eu defnyddio'n hanesyddol (a lle maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd) i weithgynhyrchu radiocemegion, mewn diwydiant ac ym meysydd meddygaeth ac ymchwil.

Mae Horizon Nuclear Power yn cynnig adeiladu cyfleuster cynhyrchu ynni niwclear newydd yng Nghymru gyda chynllun adweithydd a ddarparwyd gan Hitachi GE Nuclear Ltd, a gadarnhawyd yn ddiweddar. Os caiff ei adeiladu, yn amodol ar yr holl asesiadau, cymeradwyaethau rheoliadol a chaniatadau angenrheidiol, byddai'r cyfleuster yn cynhyrchu Gwastraff Uwch ei Actifedd a Gweddillion Tanwydd y bydd angen eu rheoli a'u gwaredu. Hyd yn oed os na chaiff cyfleusterau ynni niwclear eu hadeiladu yng Nghymru, ceir gwastraff uwch ei actifedd etifeddol, yn ogystal â gwastraff sy'n dal i gael ei gynhyrchu o ffynonellau anniwclear, y mae angen ei reoli a'i waredu yn y pen draw.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau addas ac effeithiol yn bodoli ar gyfer rheoli gwastraff uwch ei actifedd sydd wedi'i gynhyrchu, sy'n cael ei gynhyrchu, ac a gaiff ei gynhyrchu yng Nghymru.

O ystyried yr uchod, ac fel y prif gorff rheoleiddio amgylcheddol yng Nghymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gwaith o waredu gwastraff ymbelydrol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn:

- y dylai Llywodraeth Cymru bellach fabwysiadu polisi diffiniol, clir ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff o ffynonellau sy'n bodoli eisoes a ffynonellau yn y dyfodol, sy'n gyson â'i

pholisi o gefnogi cyfleusterau niwclear ac anniwclear presennol a rhai yn y dyfodol yng Nghymru.

CWESTIWN 2. A ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff yn yr hirdymor?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ill dwy bolisi clir ar reoli a gwaredu gwastraff uwch ei actifedd. Yn Lloegr, y polisi a ffeirir yw defnyddio cyfleusterau gwaredu daearegol tanddaearol dwfn peirianyddol ar gyfer y gwastraff hwn, tra bod polisi Llywodraeth yr Alban yn gwrthwynebu defnyddio cyfleusterau gwaredu daearegol tanddaearol, gan ffafrio yn lle hynny reoli gwastraff uwch ei actifedd o fewn cyfleusterau sy'n agos at wyneb y ddaear.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod mai polisi presennol Llywodraeth Cymru yw peidio â chefnogi, na gwrthwynebu, polisi Llywodraeth y DU o ddefnyddio cyfleusterau gwaredu daearegol ar gyfer gwastraff uwch ei actifedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud ag amrywiaeth o ffrydiau gwaith amlreoliadol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio sylweddau ymbelydrol yn y DU. Rydym yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a Radioactive Waste Management Ltd ar y materion cymhleth sy'n ymwneud â rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol yn y Deyrnas Unedig.

Drwy'r gwaith hwn mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi, o'r gwledydd yn y gymuned ryngwladol sydd â gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd, fod y rhan fwyaf yn defnyddio (neu'n ystyried defnyddio) cyfleusterau gwaredu daearegol dwfn fel yr opsiwn a ffeirir ganddynt. Yn y Gymuned Ewropeaidd ceir nifer o aelod-wladwriaethau sydd wedi gwneud cryn gynnydd yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid, rhaglenni sgrinio daearegol, nodi safleoedd a rhaglenni dewis. Mewn rhai achosion mae'r broses hon wedi symud ymlaen at ddechrau ar gam adeiladu labordy craig neu storfa ddaearegol.

O ystyried hyn, ac fel y nodwyd yn ein hymateb blaenorol i'r cais am dystiolaeth ar yr adolygiad hwn o bolisi (gweler Atodiad 1); rydym yn nodi'r canlynol, bod '*Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu argymhellion y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol o 2006 a'i ddatganiad yn 2013, gan nodi ei argymhelliad mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn hirdymor gorau ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff*'.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod, yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol ledled y byd, mai'r opsiwn mwyaf poblogaidd ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff uwch ei actifedd yw gwaredu daearegol, ac mai'r dull gweithredu a fabwysiedir gan amlaf yw defnyddio storfa ddaearegol ddwfn, beirianyddol. Felly, rydym yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig a nodir yn yr ymgynghoriad, sef y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi o blaid gwaredu daearegol.

Ar ben hynny, rydym yn ailddatgan ein hymrwymiad a wnaed yn flaenorol (Atodiad 1) ei bod yn hanfodol bod '*Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ymgysylltu â'r adrannau*

perthnasol yn Llywodraeth y DU, y rheoleiddwyr a'r gweithredwyr i chwarae rhan effeithiol yn natblygiad polisi a strategaeth sylweddau ymbelydrol yn y DU'.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi polisi o blaid gwaredu daearegol, byddai'n sefydlu polisi cyson ledled Cymru a Lloegr. Byddai'n gyfle i sicrhau dull clir, cyson a chydgyssylltiedig o reoli gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff yng Nghymru a Lloegr yn yr hirdymor.

Byddai hyn yn egluro'r safbwynt cyffredin i bob parti sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru a Lloegr, o weithredwyr niwclear a rheoleiddwyr i adrannau'r Llywodraeth, fel y gellir gwneud rhagor o gynnydd o ran nodi atebion realistig ac ymarferol gyda'i gilydd ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff uwch ei actifedd yn yr hirdymor.

CWESTIWN 3. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisi o blaid gwaredu daearegol a ddylai fabwysiadu polisi ar gyfer llwybr gwaredu amgen ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff? Os felly, pa bolisi y dylai ei fabwysiadu?

Fel y nodwyd yn ein hatebion i Gwestiynau 1 a 2 uchod, ac yn ein hymateb i'r cais am dystiolaeth (Atodiad 1), mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi o blaid gwaredu daearegol ar gyfer rheoli gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff yn yr hirdymor.

At hynny, fel y nodir yn Atodiad 1, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn; *'y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys yn ei hadolygiad [o bolisi] yr angen am storfa dros dro a hirdymor cyn gwaredu daearegol...'*

'Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr amser a ragwelwyd i greu cyfleuster gwaredu daearegol, a'r posibilrwydd y gallai hyd yn oed y genhedlaeth nesaf o orsafoedd ynni niwclear fod wedi'u datgomisiynu cyn i'r cyfleuster fod ar gael, gan gynnwys Wylfa Newydd'.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y dylid gwahanu'r broses o waredu'r ffrydiau gwastraff unigryw hyn oddi wrth y broses o'u storio ar wahân yn yr hirdymor, yn seiliedig ar y cysyniad o adferadwyedd, h.y. pa un a ellir adfer y gwastraff ai peidio. Yn syml, credwn, os gellir adfer y deunydd, mai proses storio ydyw ac, os na ellir ei adfer, mai proses gwaredu terfynol ydyw.

Gan ei bod yn debygol y bydd angen storio gwastraff dros dro ac yn yr hirdymor, nes y bydd ateb gwaredu peirianyddol terfynol ar gael, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y mae unrhyw bolisi ar gyfer gwaredu yn y dyfodol yn darparu ar gyfer trefniadau at gyfer storio gwastraff yn yr hirdymor. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried hyn os caiff opsiwn amgen i waredu daearegol ar gyfer y ffrwd wastraff unigryw hon ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o bolisi.

CWESTIWN 4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod

yn wastraff?

Rydym yn cyfeirio at ein hymateb i Gwestiwn 4 yn y cais am dystiolaeth (Atodiad 1) '*Pe bai cyfleuster gwaredu daearegol yn mynd rhagddo, byddai dyluniad a rheolaeth cyfleuster o'r fath ac unrhyw gyfleusterau storio cysylltiedig dros dro, yn gorfod ennyn hyder ymhlith yr holl gymunedau yr effeithir arnynt a hynny yn ystod y camau cynharaf*'. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn rhan o'i adolygiad yr angen am bolisi Llywodraeth clir a rheoleiddio effeithiol o ran sicrhau hyder cymunedol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod, os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu mai ei pholisi ar gyfer gwaredu gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd (y datganwyd eu bod yn wastraff) yw gwaredu daearegol, nad yw hyn yn golygu, o reidrwydd, y byddai safle gwaredu o'r fath yng Nghymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai angen rhagor o dystiolaeth er mwyn cadarnhau bod lleoliad ag amodau daearegol addas ar gyfer storfa ddaearegol yng Nghymru neu fod cymuned yng Nghymru a fyddai'n gwirfoddoli i gynnal cyfleuster o'r fath. Er ei bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn dewis cysoni ei pholisi â pholisi Llywodraeth y DU o ddefnyddio cyfleusterau gwaredu daearegol fel yr opsiwn a ffefrir, mae'n bosibl na fydd yr amgylchiadau penodol o blaid lleoli storfa o'r fath yng Nghymru.

Fodd bynnag, fel y nodir yn Atodiad 1, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod '*... angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau addas ac effeithiol yn bodoli ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gynhyrchir yng Nghymru gan gyfleusterau niwclear sy'n bodoli eisoes a rhai yn y dyfodol a hefyd gwastraff gan ddiwydiant Cymru a'r sector meddygol*'. Mae Cymru wedi elwa ar ddefnyddio'r sylweddau ymbelydrol hyn, a hynny'n gymdeithasol ac yn economaidd, ac rydym yn cytuno bod gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth i gymryd rhan mewn datblygu strategaeth ar gyfer rheoli'r gwastraff hwn.

I gloi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi diffiniol ar reoli a gwaredu gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff. Rydym hefyd yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y ddogfen adolygu polisi, y dylid mabwysiadu gwaredu daearegol fel yr ateb a ffefrir.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Ionawr 2015

Atodiad 1 - Ymateb CNC i'r Cais am Dystiolaeth (Cyflwynwyd Mehefin 2014). Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Crëwyd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2013 a'i brif orchwyl yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Mae rheoleiddio busnes a diwydiant ymhlith ei gyfrifoldebau statudol. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio gwaredu gwastraff ymbelydrol o safleoedd niwclear, yn ogystal â safleoedd eraill yng Nghymru. Mae'r holl drwyddedau sy'n ymwneud â safleoedd sy'n cynhyrchu neu'n gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru yn cael eu rhoi gan CNC. Mae cydymffurfio â'r trwyddedau hyn ar safleoedd niwclear yn cael ei gyflawni gan arbenigwyr Asiantaeth yr Amgylchedd ar ran CNC; fodd bynnag, CNC sy'n ymgymryd â gorfodi.

C1: A ddylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi presennol ar waredu gwastraff uwch ei actifedd?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r adolygiad, oherwydd mae'n ddoeth ailystyried polisiâu yn sgil datblygiadau neu dystiolaeth newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi cefnogaeth i ddatblygu cyfleusterau ynni niwclear newydd yng Nghymru, gan gynnwys safle arfaethedig Wylfa Newydd, sy'n cael ei gynnig i'w leoli wrth ymyl safle presennol gorsaf ynni niwclear yr Wylfa ar Ynys Môn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau addas ac effeithiol yn bodoli ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gynhyrchir yng Nghymru gan gyfleusterau niwclear sy'n bodoli eisoes a rhai yn y dyfodol a hefyd gwastraff gan ddiwydiant Cymru a'r sector meddygol. Mae Cymru wedi elwa ar ddefnyddio'r sylweddau ymbelydrol hyn, a hynny'n gymdeithasol ac yn economaidd, ac rydym yn cytuno bod gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth i gymryd rhan mewn datblygu strategaeth ar gyfer rheoli'r gwastraff hwn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol a'r safbwynt a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban, a byddwn yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru, yn dilyn trafodaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Swyddfa dros Reoli Niwclear a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, at yr wybodaeth berthnasol fwyaf diweddar, a allai gyfarwyddo ceisiadau dilynol am dystiolaeth.

C2: Cyflawnodd y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol waith helaeth cynargymell gwaredu daearegol yn ei adroddiad yn 2006, a chadarnhaodd yrargymhelliad hwnnw yn 2013. Yn hynny o beth, pe bai Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisi presennol, a ddylai gyfyngu ar ei hystyriaethau o ran opsiynau gwaredu ar gyfer gwaredu daearegol gwastraff uwch ei actifedd?

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gytundeb lefel gwasanaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n darparu gwasanaethau i ni ac rydym yn gweithio gyda chyrff eraill. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu argymhellion y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol o 2006 a'i ddatganiad yn 2013, ac mae'n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys yn ei hadolygiad yr angen am storfa dros dro a hirdymor cyn gwaredu daearegol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr amser a ragwelwyd i greu cyfleuster gwaredu daearegol, a'r posibilrwydd y gallai hyd yn oed y genhedlaeth nesaf o orsafoedd ynni niwclear fod wedi'u datgomisiynu cyn i'r cyfleuster fod ar gael, gan gynnwys Wylfa Newydd.

C3: Os dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau gwaredu heblaw gwaredu daearegol, pa opsiynau gwaredu y dylai eu hystyried?

Fel y nodwyd uchod, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn adolygu argymhellion y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol yn rhan o'i gwaith o gasglu tystiolaeth, ac yn adolygu'r opsiynau ar gyfer storio dros dro a hirdymor cyn dechrau gwaredu daearegol. Er enghraifft mae'r Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol yn argymhell nad yw'r rhain yn opsiynau gwaredu, ond yn ffyrdd o reoli gwastraff dros gyfnodau a allai ymestyn i 40 neu 50 mlynedd arall. Gan fod gwaredu yn golygu "placing waste in a facility with no intention of retrieving it", yn amlwg nid yw opsiynau eraill megis gosod mewn ystorfeydd gerllaw'r wyneb yn golygu gwaredu, ond yn hytrach opsiynau storio hirdymor, oherwydd eu bod yn seiliedig ar y cynsail o adferadwyedd.

C4: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru argyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd?

Nid yw'n eglur i Cyfoeth Naturiol Cymru sut y bydd Cyfarwyddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol (Cyfarwyddeb Cyngor 2011/70/Euratom) yn effeithio ar Lywodraeth Cymru, oherwydd mae'r goblygiadau ar yr aelod-wladwriaethau; er hynny, mae'n debygol y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyfrannu'n gadarnhaol tuag at raglen y DU. Yn ogystal, oherwydd y byddai cyfleuster gwaredu daearegol yn gyfleuster newydd ac unigryw i'r DU, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei safle ar reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ôl gofynion y Gyfarwyddeb. Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ymgysylltu â'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU, y rheoleiddwyr a'r gweithredwyr i chwarae rhan effeithiol yn natblygiad polisi a strategaeth sylweddau ymbelydrol yn y DU.

Pe bai cyfleuster gwaredu daearegol yn mynd rhagddo, byddai dyluniad a rheolaeth cyfleuster o'r fath ac unrhyw gyfleusterau storio cysylltiedig dros dro, yn gorfod ennyn hyder ymhlith yr holl gymunedau yr effeithir arnynt a hynny yn ystod y camau cynharaf. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn rhan o'i adolygiad yr angen am bolisi Llywodraeth clir a rheoleiddio effeithiol o ran sicrhau hyder cymunedol.

Pe bai cymuned yng Nghymru yn gwirfoddoli ac yn cael ei dewis i gynnal cyfleuster gwaredu daearegol, byddai hyn yn gofyn am weithio mewn partneriaeth ledled y DU i sicrhau'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r sylfaen sgiliau fwyaf eang posibl o ran cyfleuster o'r fath. Pe bai safle'n cael ei ddewis yng Nghymru, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill yn y DU gan gynnwys y Swyddfa dros Reoli Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ogystal â gweithredwyr niwclear a chyrrff perthnasol eraill megis yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a Radioactive Waste Management Ltd. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru gyda hyn, pe bai unrhyw gymuned yng Nghymru yn gwirfoddoli i gynnal cyfleuster gwaredu daearegol.

Mae'r un mor bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai angen defnyddio adnoddau Lloegr a Chymru pe bai safle yng Nghymru yn cael ei ddewis ar gyfer cyfleuster cenedlaethol i'r DU. Gallai hyn ofyn am gytundebau ffurfiol er mwyn caniatáu i gyrff flaen gynllunio adnoddau, a chefnogi cadw sgiliau a gwytnwch. Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn parhau i wneud y penderfyniad terfynol o ran caniatáu cyfleuster o'r fath yng Nghymru o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales Mehefin 2014